

GANGIAU CYFFURIAU SY’N CROESI FFINIAU SIROEDD

Er nad oes diffiniad swyddogol, mae gweithgaredd o’r fath yn ymwneud â gangiau troseddol o drefi mawr yn teithio I leoliadau llai i werthu heroin/cocên crac.



Bydd y grŵp yn defnyddio un rhif ffôn o’r tu allan i’r ardal y gall cwsmeriaid sydd eisiau archebu cyffuriau ei ddefnyddio a hwn fydd eu ‘brand’.

Mae’r gangiau yn dueddol o ddefnyddio eiddo lleol - fel arfer rhywle lle mae rhywun bregus yn byw - fel safle ar gyfer eu gweithgareddau. Bydd yr eiddo fel arfer yn cael ei feddiannu drwy rym neu orfodaeth ac mewn rhai achosion bydd y dioddefwr yn gadael eu cartref gan ofni trais.

Bydd y gangiau yn defnyddio amrywiaeth o dactegau i osgoi cael eu darganfod gan gynnwys symud aelodau rhwng lleoliadau fel nad ydynt yn cael eu hadnabod gan yr heddlu neu gangiau eraill, a byddant yn defnyddio merched a phlant i gludo cyffuriau am eu bod yn credu nad ydynt mor debygol o gael eu stopio a’u chwilio.

Mae gangiau troseddol sy’n croesi ffiniau siroedd yn fygythiad arwyddocaol i’r oedolion a’r plant bregus y maent yn dibynnu arnynt I gyflawni a/neu hwyluso eu gweithgaredd troseddol.

Mae dros 70% o heddluoedd yng Nghymru a Lloegr, gan gynnwys Heddlu Gogledd Cymru, yn awr yn dweud fod gweithgaredd o’r fath yn digwydd yn eu hardaloedd nhw.

Mae aelodau’r gangiau hyn fel arfer yn eu harddegau hwyr i’w hugeiniau canol.



Mae’r rhesymau dros sefydlu eu hunain mewn ardaloedd eraill yn cynnwys:

- Sylfaen parod o gwsmeriaid
- Llai o gystadleuaeth
- Llai o berygl o fod yn darged saethu
- Llai tebygol o fod yn adnabyddus i’r heddlu.

Tueddiadau diweddar:

- Targeduoedd oedolion â phroblemau iechyd meddwl.
- 80% o heddluoedd yn dweud fod plant yn cael eu hecsbloetio, fel arfer i ddanfoni cyffuriau i gwsmeriaid

Adnabod:

- Plant o ardaloedd trefol yn cael eu recriwtio gan gangiau i gludo cyffuriau ac arian i’r lleoliad sirol, yn aml ar y trên ond hefyd mewn ceir ac ar fysus.
- Dywedir fod plant wedi aros mewn amodau gwael dros ben mewn tai a feddiannwyd gan y gangiau ac sydd fe arfer yn eiddo i ddefnyddwyr cyffuriau Dosbarth A.

Os oes gennych bryderon, siaradwch â’r aelod o staff yn eich sefydliad sy’n arwain ar faterion diogelu. Darllenwch adroddiad yr Asiantaeth Trosedd Cenedlaethol (Tach 2016).

Arweiniad y Swyddfa Gartref:

[‘Dydi hyn ddim yn iawn’ Ymgyrch ‘Trapped’](#)

[Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru](#)